**Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 04/2015)**
**Student Finance Wales Information Notice (SFWIN 04/2015)**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau preifat sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig ar gyfer myfyrwyr Cymru
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
UCM Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Anabledd Cymru
Cymdeithas Technoleg Gynorthwyol Prydain
Canolfannau Asesu Annibynnol yng Nghymru
Aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Anabl
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru
RNIB Cymru
NDCS Cymru

Tachwedd 2015

Annwyl Gyfaill

CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISI AR GYFER LWFANSAU I FYFYRWYR ANABL O GYMRU YM MLWYDDYN ACADEMAIDD 2016/17

O ran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, mae Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn rhan o'r pecyn cymorth statudol i fyfyrwyr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Yng Nghymru yn 2012/13, rhoddwyd oddeutu £9.2m o Lwfansau i 3,729 o fyfyrwyr tuag at amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys darparu gweithwyr cymorth, prynu cyfrifiaduron ac offer arbenigol, a chymorth gyda chostau teithio.

Yn sgil y cyhoeddiad yn Lloegr, mae'r polisi ar gyfer Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod cyllid y Lwfansau'n cael ei dargedu'n effeithiol. Yn SFWIN 01/2015 (http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/media/9267/newidiadau-arfaethedig-ir-lwfansau-i-fyfyrwyr-anabl-ar-gyfer-blwyddyn-academaidd-2016-17.pdf) fe gynigion ni newidiadau i'r polisi ar gyfer y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru, yn unol â'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr. Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law, penderfynodd y



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

E-mail/ E-bost:
cyllidmyfyrwyr@cymru.gsi.gov.uk
studentfinancedivision@wales.gsi.gov.uk

Gweinidog Addysg a Sgiliau na fyddai'n cyflwyno unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.

Mae'r hysbysiad hwn yn cadarnhau y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y cynigion ar gyfer gwella polisi a phroses y Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd unigolion i ymuno â gweithgor newydd fel cynrychiolwyr o'r sector, er mwyn ystyried pa gwestiynau y dylid eu cynnwys mewn ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Gwneir unrhyw benderfyniad o ran a ddylid gwneud y newidiadau arfaethedig i'r polisi ar gyfer Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn y blynyddoedd i ddod ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori yn llawn ac ystyried yr holl ymatebion.

Bydd dau newid i'r broses yn cael eu hystyried ar wahân i'r uchod, sef:

- Rhoi cap ar ffioedd asesu anghenion;
- Cyflwyno proses gofrestru ar gyfer darparwyr Gwasanaethau Technoleg Gynorthwyol a chanolfannau asesu anghenion.

A fyddech cystal â rhannu'r ddogfen hon â'ch aelodau ac unrhyw sefydliadau eraill a fyddai â diddordeb.

YMHOLIADAU
Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru ar e-bost: cyllidmyfyrwyr@cymru.gsi.gov.uk

Gwybodaeth bellach a'r dogfennau cysylltiedig Mae fersiynau print bras neu Braille o'r ddogfen hon a'r ffurflen ymateb, a hefyd fersiynau mewn ieithoedd eraill, ar gael ar gais.

Mae copi o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn gan Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r Ffurflen Ymateb ar gael hefyd ar y wefan ganlynol:
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ymarferwyr

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 04/2015)
Student Finance Wales Information Notice (SFWIN 04/2015)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

To:

Higher Education Institutions in Wales providing designated Higher Education courses
Further Education Institutions in Wales providing designated Higher Education courses
Private Institutions providing designated Higher Education courses for Welsh students
The Student Loans Company
UCAS
The Open University in Wales
Student Finance Wales Stakeholder Group
NUS Wales
Higher Education Funding Council for Wales
Universities Wales
Disability Wales
British Assistive Technology Association
Independent Assessments Centres in Wales
Disabled Students Stakeholder Group Members
Equality and Human Rights Commission in Wales
RNIB Cymru
NDCS Cymru

November 2015

Dear Colleague

**HIGHER EDUCATION STUDENT SUPPORT – PROPOSED CHANGES TO THE DISABLED STUDENTS' ALLOWANCES POLICY IN WALES FOR ACADEMIC YEAR 2016/17**

For Welsh-domiciled students, Disabled Students' Allowances (DSAs) are part of the statutory student support package provided by the Welsh Ministers and administered by Student Finance Wales (SFW). In Wales in 2012/13 around £9.2m of DSAs were allocated to 3,729 Welsh students towards a range of support, including the provision of support workers, the purchase of computers and specialised equipment and assistance with travel costs.

Following the announcement of changes in England, the DSAs policy in Wales is being reviewed to ensure that DSAs funding is being targeted effectively. In SFWIN 01/2015 (http://www.studentfinancewales.co.uk/media/9266/proposed-changes-to-the-disabled-students-allowances-for-academic-year-2016-17.pdf) we proposed changes to the DSAs policy in Wales, in line with the proposed changes in England. Following consideration of the responses received, the Minister for Education and Skills decided not to introduce any of the proposed changes for academic year 2016/17.

This notice confirms that a public consultation will be carried out in respect of proposals for improving the Disabled Students' Allowances (DSAs) policy and process in Wales from academic year 2017/18 onwards. Individuals will be invited by Welsh Government to join a new working group as sector representatives to consider questions to be included in a full public consultation. Any decision as to whether the proposed changes are made to the DSAs policy in future years will be made after the full consultation process is concluded and any responses have been considered.

Two process changes will be considered separately to the above mentioned exercise:

- Placing a cap on needs assessment fees.
- Introducing a registration process for Assistive Technology Service providers and needs assessment centres.

Please share this document with your members and any other organisations you feel would have an interest.

## ENQUIRIES

If you have any queries about this Information Notice, please contact, in the first instance, the Higher Education Division, Welsh Government - email studentfinancedivision@wales.gsi.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Further information and related documents** | **Large print, Braille and alternate language versions of this document are available on request.**<br><br>A copy of this Information Notice can also be found on the following website:<br>www.studentfinancewales.co.uk/practitioners |